

Ymyrraeth	Mannau Gwyrdd a Diogel		Gwyrdd	Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd	
			Oren	Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyraeddadwy o hyd	
Arwain	Steve Morgan a Huw Jakeway	Cyfnod Adrodd	Chwarter 4 2021-22 (Ionawr - Mawrth)	Coch	Cynnydd ymhell o fwrw'r targed

Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau
Mae'r Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel yn parhau i weithio'n dda, gyda lefelau cryf o ymgysylltu a chydweithredu. Creodd gweithdy rhwydwaith (Ionawr 2022) waith partneriaeth pellach a chyfleoedd i gydweithio gan ennyn brwdfrydedd dros y weledigaeth hon ar draws nodau a rennir. Mae aelodaeth o'r rhwydwaith yn ehangu ac yn arallgyfeirio.
Derbyniodd y gronfa Cyllidebu Cyfranogol nifer o geisiadau a chynigion llwyddiannus yn ymwneud â phrosiectau â nodau mannau Gwyrdd a Diogel.
Mae cyfarfodydd partneriaeth parhaus a gwaith gan grŵp Cyfeillion Ffordd i Natur yn parhau i wella'r ardal ac atal tipio anghyfreithlon.
Ymatebodd tîm De-ddwyrain CNC i'r ymgynghoriad ar Weledigaeth ac Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN), gan weithio gyda thîm Ymgynghori Cynllunio CNC a rhoddodd adborth ar yr Aseiad SG.
Fel rhan o'r rhaglen Trees for Cities, plannwyd 100 o goed ffrwythau hefyd mewn lleoliadau amrywiol ledled Casnewydd gan wirfoddolwyr, Cyngor Dinas Casnewydd ac eraill.
Wedi'i gysylltu â Right Skills i hyrwyddo cysiau Llythrennedd Carbon, a ariennir gan y Rhaglen Datblygu Gwledig, ym mis Ionawr ar gyfer cefn gwlad Sir Fynwy a Chasnewydd. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd a gweithredu ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys. Llythrennedd Carbon/Eco.
Lansiwyd cynllun peilot tagio teiars ym mis Chwefror 2022 i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon Casnewydd, darllenwch fwy yma
Nifer o brosiectau a diweddiadau gan Maindee Unlimited yn eu cylchlythyr gwanwyn 2022 yma
Cynhaliwyd adolygiad cyflym o ymchwil i <i>Fynediad Cymunedau Amrywiol at Fannau Gwyrdd Lleol a'u Defnydd Ohonynt</i> , gydag argymhellion i'r Bwrdd a'r Rhwydwaith eu datblygu.
Cyfathrebu: 6 ^{ed} e-gylchlythyr i'w gyhoeddi ym mis Mai 2022 yn rhannu arfer gorau ledled Casnewydd, hyrwyddo gwaith y Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel, cyfleoedd i gydweithio, adroddiadau diweddaraf, adnoddau a chyllid. Gwybodaeth ad hoc sy'n cael ei hanfon i'r Rhwydwaith rhwng cylchlythyrau. Cynlluniau i greu fideo o waith y rhwydwaith GaD.
Cynhaliwyd astudiaeth o ddichonoldeb Seilwaith Gwyrdd (SG) Canol y Ddinas erbyn mis Mawrth 2022, cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid ym mis Chwefror 2022, i nodi cyfleoedd ar gyfer SG, ymgysylltu â phartneriaid a busnesau, gyda'r bwriad o wneud SG yn rhan o gynlluniau creu lleoedd yn y dyfodol.

Mesuriadau Perfformiad Allweddol	Targed	Gwirioneddol	COG
% / hectarau o fannau glas a gwyrdd hygrych *Mynegai Mannau Gwyrdd Meysydd Chwarae Cymru	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	
% Brigdwf coed *Brigdwf y DU i-Tree	Yn cael eu datblygu		
Nifer o Safleoedd Pryfed Peillio CDC	20	48	Gwyrdd
Aelodau'r rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel	100	133	Gwyrdd
Nifer y bobl oedd yn bresennol yng ngweithdy diwethaf y Rhwydwaith	30	33	Gwyrdd
Agor cylchlythyr Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel	130	Dd/B	Dd/B
Dilynwyd ar y cyfryngau cymdeithasol (Twitter)	150	130	Gwyrdd
Olion twit ac ymweliadau â'r proffil	6,000	8,557	Gwyrdd
Prosiectau cydweithredol gweithredol sy'n cyflawni gweledigaeth y Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel a Seilwaith Gwyrdd (SG)	15	21	Gwyrdd
Baneri Gwyrdd erbyn 2023:	8	3	Oren
Cymunedol			
Gwobr Lawn	5	3	Gwyrdd
Nifer y cynlluniau a strategaethau y mae'r weledigaeth Gwyrdd a Diogel / SG wedi'i hymgorffori ynddynt	3	5	Gwyrdd
Lleiau'r canlynol (mewn man glas gwyrdd):	(Ch3 2020 vs Ch3 2021)		
Achosion o dipio anghyfreithlon	79	Nid yw data Ch3 2021 ar gael eto	
Digwyddiadau tân bwriadol	11		
Digwyddiadau eraill sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol	55		

Mae CNC yn ariannu gwaith mapio ar gyfer cyfleoedd ôl-ffitio to gwyrdd yng Nghasnewydd, er mwyn annog toeau gwyrdd. Yn cysylltu â'r astudiaeth o ddichonoldeb SG. Toeau bioSolar yn cael eu hystyried i gyd-fynd â'r Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL). Cynhaliwyd y cyfarfod cychwynnol ddechrau mis Mawrth 2022.

Mae'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd (ASG) wedi'i gwblhau. Gallai gysylltu â Phartneriaeth Grid Gwyrdd Gwent (PGGG) ar Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Gwent.

Cyhoeddodd Cyngor Dinas Casnewydd gynllun newid yn yr hinsawdd 2022-2027 ym mis Mawrth 2022.

Cynhelir sesiynau lles coetiroedd ym Metws, yng nghoedwig CNC, gan Coed Lleol, mewn partneriaeth â Hyb Gogledd CDC.

Cais Buglife am Brosiect Pryfed Peillio yn llwyddiannus ac yn mynd rhagddo.

Diweddariadau ar Strydoedd Diogelach (SD):

- Cyllid o SD2 – 400 mil wedi'i ddyrannu ar gyfer Pilgwenlli. Teledu cylch cyfyng / gwella strydoedd ar Alexandra Street / Commercial Street.
- Cyllid o SD4 – 400 mil wedi'i ddyrannu ar gyfer Stow Hill. Teledu cylch cyfyng / gwella strydoedd ym Mharc Chapel, Parc Clifton a Pharc Bellevue.

Prif Risgiau / Rhwystrau i gynnydd	Statws (U/C/I)	Camau Lliniaru / Y Cymorth Sydd ei Angen
Mannau gwyrdd nad ydynt wedi'u hamddiffyn yn ddigonol yn y broses gynllunio	Canolig	Defnyddiwyd map/cronfa ddata Seilwaith Gwyrdd (SG) yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae Asesiad SG wedi'i gwblhau, gan greu sylfaen dystiolaeth ar gyfer Strategaeth SG.
Mynediad anghyfartal i fannau gwyrdd diogel o ansawdd da gerllaw ddim yn cael ei ddelio ag e.	Canolig	Archwilio rhagor o gynlluniau peilot i ymgysylltu ag ardaloedd a chymunedau penodol, a'u cefnogi, gyda dull aml-asiantaethi rymuso cymryd perchnogaeth o fannau gwyrdd a'u gwella.
Gallu partneriaid i gyflawni yn erbyn uchelgeisiau ymyrraeth Gwyrdd a Diogel.	Canolig	Cynrychiolwyr sefydliadau partner i godi pwysigrwydd y Cynllun Lles/ymyrraeth mewn cyfarfodydd cynllunio busnes mewnol.
Prosiectau'n cael eu hoedi yn ystod y cyfnod pontio i BGC Gwent.	Canolig	Parhau i weithio gyda sefydliadau partner, grwpiau cymunedol a'r Rhwydwaith i ddarparu Mannau Gwyrdd a Diogel tra'n cefnogi BGC Gwent.

[Lles Cymru: Dangosyddion Cenedlaethol](#) (25, 26, 28, 29, 38, 40, 43, 44)

[Mynegai Lleoedd Ffyniannus - Casnewydd 2021](#) Lle ac Amgylchedd Cynaliadwyedd

[MALIC - Hafan \(llyw.cymru\)](#) Amgylchedd Ffisegol

Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf

Parhau i gryfhau cysylltiadau â Chasnewydd Ddiogelach ac is-grwpiau

Cynllunio gweithdy nesaf y Rhwydwaith ar gyfer Mehefin 2022 i wneud rhagor o waith partneriaeth a chyflawni nodau cyffredin, parhau i ehangu ac arallgyfeirio'r rhwydwaith

Cyrchu'r map/cronfa ddata SG.

Parhau i ddatblygu a gweithredu'r cynlluniau cyfathrebu.

Parhau i gryfhau cysylltiadau a chyfleoedd gyda Chymdeithasau Tai.

Hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli drwy'r Cylchlythyr.

Archwilio argymhellion y papur adolygu cyflym gyda'r bwrdd a'r Rhwydwaith.

Rhannu'r dysgu gyda Phartneriaeth Grid Gwyrdd Gwent (PGGG).

Cefnogi'r sesiynau lles coetiroedd ym Metws.